

CYNGOR CYMUNED/TREF.....

**CAIS AM EITHRIAD I'R
PWYLLGOR SAFONAU
GAN AELOD O'R CYNGOR**

Enw'r Cynghorydd	
Cyfeiriad	
Ward	
Natur yr eithriad a geisir	
Lefel yr eithriad a geisir (h.y. i siarad yn unig neu i siarad a phleidleisio)	
Y paragraff perthnasol i'r cais am eithriad (gweler drosodd)	
Manylion y Cysylltiad Sy'n Rhagfarnu	
Manylion unrhyw swydd â chyfrifoldeb/rheolaeth a wneir ar y Cyngor (e.e. Cadeirydd/Is-Gadeirydd)	

Llofnod:	Dyddiad:
-----------------	-----------------

Amgylchiadau y bydd y Pwyllgor Safonau yn Caniatáu Eithriadau

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn nodi y gall Pwyllgor Safonau'r Cyngor ganiatáu eithriadau dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000:

- (a) pan fo hanner neu fwy o aelodau'r Cyngor neu bwyllgor y Cyngor (yn ôl fel y digwydd) â chysylltiad ag eitem ar y rhaglen;
- (b) pan fo hanner neu fwy o aelodau gweithredol y Cyngor (h.y. yr Arweinydd a'r Cabinet) â chysylltiad ag eitem a thrafodir a phan fo naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn berthnasol;
- (c) pan fo anallu aelod i gymryd rhan yn y drafodaeth yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu unrhyw un o'i bwyllgorau, i'r fath raddau y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;
- (d) pan fo natur cysylltiad aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod hwnnw yn y busnes y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o yn niweidio hyder y cyhoedd yn y ffordd y cynhelir busnes y Cyngor;
- (e) pan fo'r cysylltiad yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;
- (f) pan fo cyfranogiad yr aelod yn yr eitem yn cael ei gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;
- (g) pan fo'r cysylltiad cofrestradwy yn ymwneud â busnes, sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac nad yw cysylltiad yr aelod yn un ariannol;
- (h) pan fo'r busnes yn ymwneud â materion ariannol neu eiddo mudiad gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o bwyllgor rheoli neu fwrdd y mudiad hwnnw, ac eithrio fel cynrychiolydd o'r Cyngor, ac nad oes gan yr aelod unrhyw gysylltiad arall â'r busnes hwnnw, ar yr amod na chaiff yr eithriad ei ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu
- (i) pan ymddengys i'r Pwyllgor Safonau y byddai o fudd i drigolion yr ardal pe bai'r anallu yn cael ei ddileu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o'r caniatâd am eithriad yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 7 diwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath nodi enw'r aelod dan sylw a rhesymau'r Pwyllgor Safonau ynghylch dileu'r anallu.